

**CYNGOR TREF RHUTHUN  
RUTHIN TOWN COUNCIL**



---

**PWYLLGOR AMWYNDERAU  
8 o DACHWEDD 2021**

**EITEM 3**

Cofnodion cyfarfod y **Pwyllgor Amwynderau** a gynhaliwyd  
nos Lun 4 o Hydref 2021 am 7:45pm drwy Zoom.

**YN BRESENNOL:** Cynghorwyr Menna Jones (Cadeirydd), Anne Roberts, Stephen Beach, Jim Bryan, Rachel Lewington, Heather Williams, Christine Ellis a Mike van der Eijk

**52. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cyng Gavin Harris

**53. DATGAN BUDDIANNAU**

Dim

**54. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

**PENDERFYNWYD:** bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 13 o Fedi 2021 yn cael eu cadarnhau fel cofnod cywir.

**55. MATERION YN CODI**

Dim

**56. PROSOECT PLANNU COED Y MAER**

Ystyriwyd adroddiad y Maer gan y Pwyllgor. Roedd y manylion yn cynnwys amlinelliad o'r gwaith a wnaed a thrafodaethau a gynhaliwyd gyda nifer o grwpiau a'r Cyngor Sir ar gyfleoedd posibl i blannu coed. Roedd prosiect plannu coed yn Llanfwrog wedi llwyddo i dderbyn cyllid ac bydd digwyddiad plannu coed yn digwydd ar 13 Tachwedd 2021. Roedd Cyngor Sir Ddinbych wrthi'n edrych ar gyfleon ar gyfer plannu coed yng Nghae Ddol a byddai adborth y Cyngor Tref yn cael ei groesawi ar y cynlluniau hyn. Byddai plannu coed yn cael ei annog i nodi'r Jiwbilî yn 2022, gan gynnwys yng ngerddi'r trigolion a fyddai'n cael eu nodi ar fap coed Jiwbilî. Byddai adborth gan y gymuned yn cael ei annog a byddai cyswllt â'r ysgolion lleol yn digwydd.

Roedd yr Aelodau'n awyddus i sicrhau bod gwaith plannu newydd yn cael ei roi ar waith e.e Porth y Dref yn ogystal â sicrhau bod y gwaith o gynnal a chadw coed a blannwyd gan y Cyngor Tref (e.e. Llwybr Celf ac ar hyd Ffordd Gyswllt y Gogledd) yn cael ei wneud yn briodol. Cytunodd y dylid cynnal a chadw'r coed yn Sgwâr San Pedr.

**PENDERFYNWYD:** i dderbyn adroddiad y Maer ac i gynnal gwaith cynnal a chadw ar y coed yn Sgwâr San Pedr.

**57. ARWYDDION CERDDWYR**

Roedd y gwaith o osod yr arwyddion wedi ei wneud, ond esboniwyd bod angen rhai addasiadau bach ar ddau arwydd (un ar Stryd Clwyd ac un ar Stryd y Castell). Roedd adborth gan breswylwyr

a busnesau wedi bod yn gadarnhaol iawn ac ystyriwyd bod yr arwyddion yn ychwanegiad buddiol i'r dref er mwyn helpu cerddwyr i lywio'r ardal. Dywedwyd mai'r arwyddion hyn oedd yr unig elfen o gyllid Canol Tref Covid-19 ar ol gan i elfennau Cyngor Sir Ddinbych gael eu dileu. Diolchodd y Pwyllgor yn gynnes i'r Cynghorydd Gavin Harris am ei waith yn goruchwyllo'r prosiect arwyddion.  
**PENDERFYNWYD:** *i nodi bod yr arwyddion wedi'u gosod yn llwyddiannus o amgylch y dref.*

#### **58. YMGYRCH YMWEYBYDDIAETH SBWRIEL**

Roedd y Cynghorwyr Jones a Roberts wedi cysylltu â'r tair ysgol gynradd leol yn gofyn i'r disgyblion dynnu lluniau/posteri i godi ymwebyddiaeth o sbwriel. Byddai'r lluniau yn cael eu derbyn cyn yr egwyl hanner tymor gyda rhai yn cael eu harddangos yn Yr Hen Lys ac mewn lleoliadau eraill o amgylch y dref.

**PENDERFYNWYD:** *i nodi'r diweddariad ac i diolch i'r Cynghorwyr Jones a Roberts am fwrw ymlaen â'r ymgyrch.*

#### **59. PARCIO AR YSTAD HAULFRYN**

Mynegwyd pryderon am y sefyllfa parcio yn Ystâd Haulfryn, a oedd yn effeithio ar breswylwyr a hefyd allai gael effaith andwyol ar gerbydau brys. Atgoffwyd y Pwyllgor bod Cynghorwyr Tref wedi cyfarfod â swyddogion Cyngor Sir Ddinbych ar y mater tua thair blynedd yn ôl ac wedi ceisio atebion posibl i ddatrys y sefyllfa parcio drwy e.e. symud garejys i greu manau parcio. Roedd datrysiaid tebyg wedi bod yn fuddiol mewn rhannau eraill o Ruthun.

**PENDERFYNWYD:** *Anfon llythyr at Gyngor Sir Ddinbych yn mynegi pryderon am y parcio ac yn gofyn am fynd i'r afael â'r sefyllfa cyn gynted â phosibl.*

#### **60. COEDEN NADOLIG A GOLEUADAU RHUTHUN**

Rhoddodd Clerc y Dref ddiweddariad llafar. Cafwyd cadarnhad ychydig cyn cyfarfod y Pwyllgor fod Clogau yn cynnig yn ffurfiol i nodd i'r Goeden Nadolig a'i goleuadau eleni. Croesawodd yr Aelodau gadarnhad o'r cyfle nawdd. Cytunodd y Pwyllgor i Clerc y Dref fwrw ymlaen â chyswllt â'r cwmni marchnata sy'n gweithredu ar ran Clogau i egluro sail y nawdd ac i dderbyn unrhyw gysyniadau ar gyfer addurniadau ac arwyddion ychwanegol i sicrhau bod popeth yn cyd-fynd â gofynion y Cyngor Tref.

Nodwyd bod estyniad blwyddyn i'r contract goleuadau Nadolig presennol. Cafwyd cadarnhad y byddai Coeden Nadolig Rhuthun yn cael ei oleuo ddydd Sadwrn, 4 Rhagfyr 2021.

**PENDERFYNWYD:** *nodwyd cynnig nawdd a gadarnhawyd y goeden Nadolig a'i goleuadau a rhoddwyd cytundeb i Clerc y Dref i fynd ar drywydd y cyfle hwn. Byddai'r Goeden Nadolig yn cael ei oleuo ar 4 Rhagfyr 2021.*

#### **61. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**PENDERFYNWYD:** *mai nos Lun 8 o Dachwedd 2021 y cynhelir y cyfarfod nesaf am 7.30 pm.*